

# Glantwymyn i Lanbrynmair


Llwybr Glyndŵr ger Commins Gwalia

## Manylion y llwybr

Rhan wych o Lwybr Glyndŵr, wrth iddo lifo o gwmpas y bryniau, ar hyd llwybrau rhedyn glas a llwybrau tawel.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 7.25 milltir/11.75km |
| **Lleoliad Cychwyn:** | Safle bws, gerllaw maes parcio, Llanbrynmair |
| **Cyfeirnod Grid Cychwyn:** | SH 89879 02833 |
| **Cychwyn What3Words:** | glassware.compress.trapdoor |

## Cychwyn

Er y gellir gwneud y llwybr hwn i'r naill gyfeiriad neu'r llall, mae'n haws cerdded o Lantwymyn i Lanbrynmair, gan adael cerbyd yn Llanbrynmair, lle mae maes parcio cyhoeddus am ddim, toiledau cyhoeddus a siop bentref.

Cymerwch y bws o Lanbrynmair (safle bws gerllaw'r maes parcio) i Lantwymyn, gan ddod oddi ar y bws ar y safle bws yn fuan ar ôl dod i mewn i'r pentref. Parhewch am 250m i'r un cyfeiriad a'r bws, at y gylchfan ac yna trowch i'r dde i ddilyn ffordd yr A470 tua'r gogledd.

Cerddwch ar ymyl y ffordd am 500m cyn troi i'r dde drwy gât cae, ar hyd trac cerrig â choed ar ei hyd.

Ar ôl 500m bydd postyn yn eich cyfeirio i'r chwith wrth fforch yn y trac. Ychydig funudau'n ddiweddarach bydd cyfeirbost wrth fforch arall yn eich cyfeirio i'r chwith, i fyny ac ar draws ochr y bryn at gât cae.

Parhewch drwy hwn a dilynwch y mynegbyst i fyny dros y borfa a thrwy gât cae arall nes i chi ddisgyn tuag at lwybr glaswelltog. Mae'r trac yn disgyn i nant ac yna'n codi i Rhŷd yr aderyn.

Pasiwch rhwng adeiladau'r fferm ac i drac carreg, gan ddechrau dringfa raddol am 800 metr i ben Commins Gwalia. Yna mae'r Llwybr yn disgyn o amgylch y bryn wedi'i orchuddio â rhedyn i'r lôn ger Fferm Gwalia.

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Glantwymyn i Lanbrynmair




Trowch i'r dde ar hyd y lôn ac ar ôl 300m trowch i'r chwith ar drac. Mwynhewch y daith ddeiliog sy'n mynd â chi i lôn arall.

Trowch i'r chwith ar hyd y lôn ac ar ôl dim ond 80m trowch i'r dde i drac cerrig. Ewch drwy'r gât ac i fyny ar hyd y llwybr â chysgod eithin am 300m. Mae'r Llwybr yn mynd drwy gât cae ac yn troi'n drac suddedig ag arwyneb glaswelltog.

Parhewch ar hyd y trac, gan fynd trwy sawl gât a glyn bychan, nes i chi ddod allan i ochr y bryn gyda golygfeydd agored i'r dde. Parhewch nes i chi gyrraedd gât sy'n arwain i ardal o goedwigaeth wedi'i thorri.

Cerddwch drwy'r ardal gwympo am 200 metr nes i chi gyrraedd trac coedwigaeth arwyneb caled. Trowch i'r chwith yma a mwynhewch y llwybr hawdd am 600m, gan gadw llygad am bostyn cyfeirbwynt ar ochr dde'r trac. Trowch i'r dde, fel y dangosir gan y postyn cyfeirbwynt, ac yn fuan cwrdd â llinell ffens.

Dilynwch linell y ffens, trwy ddwy gât, am 700 metr, nes i chi weld cyfeirbwynt sy'n eich anfon hanner chwith at gât i gerddwyr. Ewch drwyddi a pharhau ar y llwybr glaswelltog llydan tuag at olygfeydd eang a mast uchel ar ben bryn.

Ewch drwy'r gât fechan wrth ymyl y mast a cherdded i lawr y trac carreg i fuarth fferm Bryn-aire-uchaf. Pan gyrhaeddwch yr iard ewch yn syth dros y trac concrit a thrwy'r gât fechan i gerddwyr wrth ochr yr ysgubor. Peidiwch â throi i'r dde i lawr y trac concrit preifat.

Cerddwch i lawr y bryn trwy sawl cae pori bychan am 500m nes i chi gyrraedd pont droed. Trowch i'r chwith dros y bont a cherddwch am 100m ar hyd ymyl y cae, drwy gât i gerddwyr, nes i chi weld cyfeirbwynt. Trowch yn sydyn i'r dde yma a cherddwch i lawr y cae gyda'r adeiladau fferm ar eich ochr dde.

Ar ôl 100m fe welwch bostyn cyfeirbwynt sy'n eich troi i'r dde a thuag at gât fechan. Pasiwch drwodd ac ewch i lawr y llethr i gyrraedd trac y fferm. Trowch i'r chwith yma, ewch dros yr afon a chwrdd â Ffordd Pandy.

Trowch i'r dde i Ffordd Pandy a'i dilyn am ychydig dros gilometr, o dan y bont reilffordd, ac yn ôl i Lanbrynmair, gan gyrraedd y maes parcio lle dechreuodd eich taith.

**Parcio:** Maes parcio yng nghanol Llanbrynmair, ger y safle bws.
**Bws:** Safle bws yng nghanol Llanbrynmair, ger y maes parcio.
**www.traveline.cymru**
**Trên:** Amherthnasol
**Gwybodaeth gyffredinol:** Siop a thoiledau yn Llanbrynmair.




Am fwy o wybodaeth am gynllunio eich taith gerdded, ewch i [www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks](www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/glyndwrs-way/circular-linear-walks)